Pum mlynedd gyntaf rhaglen yr Ymddiriedolaeth Cyfran Deg

Gwerthusiad ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr

Crynodeb Gweithredol

2009

SALLY DOWNS CONSULTING
gydag
ALISON MILLWARD ASSOCIATES
BDOR
SHARED PRACTICE

Gwerthusiad o bum mlynedd gyntaf rhaglen yr Ymddiriedolaeth Cyfran Deg

Crynodeb gweithredol yr adroddiad gwerthuso terfynol

SALLY DOWNS CONSULTING
gydag
ALISON MILLWARD ASSOCIATES
BDOR
SHARED PRACTICE

Hawlfraint CRONFA LOTERI FAWR, 2009

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â rhaglen yr Ymddiriedolaeth Cyfran Deg (YCD), sy'n mynd y tu hwnt i dasg dyfarnu grantiau drwy weithio i adeiladu cryfder a gallu mewn cymunedau lleol. Mae'r YCD yn defnyddio panel o drigolion lleol a sefydliadau lleol i benderfynu ar flaenoriaethau ariannu lleol a denu ceisiadau addas. Un o'i rhinweddau amlycaf yw bod digon o amser i wneud y broses yn gywir.

2 Mae'n anochel y bydd rhai lleoedd yn ei chael hi'n anos fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir gan y rhaglen na rhai eraill. Pan fydd Cyfran Deg yn fwyaf llwyddiannus, mae'r canlyniadau'n ysbrydoliaethus. Mae graddfa amser Cyfran Deg, sy'n hwy na'r cyfartaledd (hyd at ddeng mlynedd), yn golygu bod pob ardal yn cael cyfle i adeiladu gallu sy'n ei gwneud hi'n haws ddatblygu a rhedeg prosiectau – ac ennill yr arian i wneud hynny. Mae gobaith a disgwyliad y gellir eu cyfiawnhau y bydd y manteision helaeth yn estyn y tu hwnt i gyfnod y rhaglen, gyda'r posibilrwydd o adael etifeddiaeth Cyfran Deg eithaf sylweddol.

3 Mae'r rhaglen yn gweithredu mewn ardaloedd lle mae cyfraddau llwyddiant isel o ran ennill arian gan y Loteri yn y gorffennol wedi'u cyfuno â lefelau amddifadedd uchel. Mae'n rhaglen £50 miliwn a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr ac yn llawer mwy nag ailddosbarthu adnoddau dros dro. Mae'r rhaglen yn gynnil o ran ei dull gweithio ac yn uchelgeisiol o ran canlyniadau.

4 Mae 79 o ardaloedd targed YCD, a elwir yn 'gymdogaethau YCD', ar draws y DU. Ar ddechrau Cyfran Deg, roedd y mwyafrif o'r cymdogaethau'n cynnwys nodweddion fel a ganlyn: sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a danddatblygwyd, gwaith partneriaeth gwan rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol ac yn aml, esgeulustod yn y gorffennol.

5 Mae'r rhaglen yn defnyddio ymagwedd newydd a nodedig at ddyfarnu grantiau. Dyma'i nodweddion pwysicaf:

- Mae'n rhaglen ddatganoledig. Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi rhoi'r gyllideb Cyfran Deg o £50 miliwn mewn cronfa ymddiriedolaeth annibynnol sy'n cael ei gweinyddu a'i datblygu gan y Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol (RhSC). Yn ei dro, mae'r RhSC wedi dirprwyo'r broses gyflwyno ar y lefel leol i Asiantau lleol.
- Mae'n ymateb i ddyheadau yn y sector gwirfoddol a chymunedol (SGCh) ar gyfer ariannu tymor hwy drwy weithredu dros gyfnod o 10 mlynedd, heblaw yn yr Alban, lle mae'n saith mlynedd, a Gogledd Iwerddon, lle mae'r cyfnod yn amrywio rhwng cymdogaethau.
- Mewn sawl lleoliad mae'n targedu cymdogaethau bach iawn.
- Ar gyfer buddiolwyr y rhaglen, mae 'cronfa' leol o arian sydd wedi'i neilltuo. Gwneir penderfyniadau ynghylch sut caiff yr arian ei wario'n lleol, gyda chyfranogiad pobl leol.
- Mae'n rhaglen 'prosesau'. Mae'r prosesau a ddefnyddir i nodi rhaglenni i'w hariannu a sicrhau cyflwyniad priodol mor bwysig â'r prosiectau eu hunain. Mae gan brosesau a phrosiectau ganlyniadau sy'n werthfawr i raglen yr YCD.

6 Y Gronfa Loteri Fawr yw un o'r nifer bach o gyrff sy'n gallu ariannu gwaith a fydd yn ymchwilio i ffyrdd newydd o ddyfarnu grantiau ar y raddfa hon. Heb ymrwymiad i arloesedd, ni ellir ymchwilio i ymagweddau newydd a chyflawni pethau newydd. Mae'n destun dathlu bod y partïon i'r YCD wedi bod yn fodlon symud y tu hwnt i'w dulliau

gweithio arferol a bod cymunedau lleol wedi bod yn ymateb yn gyffredinol mewn ffordd mor gadarnhaol.

Nodau'r rhaglen

7 Gellir nodi themâu canlynol y rhaglen ymysg ei nodau cymhleth:

- Cynyddu gallu cymunedau sy'n byw yn y cymdogaethau targed i ennill arian y Loteri nawr ac yn y dyfodol.
- Ariannu prosiectau sy'n cael eu rhedeg gan ac ar gyfer pobl ddifreintiedig.
- Creu newidiadau a fydd yn para ym mywydau pobl sy'n byw yn y cymdogaethau targed.
- Adeiladu gallu a chyfalaf cymdeithasol.

8 Amlygodd manyleb y gwerthusiad y ffaith y dylai'r YCD gefnogi'i nodau drwy gynnwys pobl leol wrth wneud penderfyniadau.

Y gwerthusiad

9 Mae'r gwerthusiad yn dibynnu'n bennaf ar ddwy ffynhonnell o ddata empirig sydd, gyda'i gilydd, yn darparu lled a dyfnder:

- Astudiaethau achos mewn nifer o gymdogaethau YCD (2004-2008): Mae'r rhain wedi defnyddio cyfweliadau personol a gweithdai gyda'r holl bartïon perthnasol yn y broses Cyfran Deg, gan roi darlun o esblygiad y rhaglen a'i chanlyniadau dros amser i'r tîm gwerthuso.
- Arolwg o Asiantau lleol (2008): Defnyddiodd hyn ymagwedd hunangwblhau, a chyflawnodd gyfradd ymateb o 72%, sy'n ddigon i alluogi dod i gasgliadau cyffredinol ar sail y sampl a darparu darlun bras o waith yr YCD, i'w roi wrth ochr dyfnder yr astudiaethau achos.

Yr ymagwedd at gyflwyno

10 Trosolwg Mae rhaglen prosesau'n un lle mae'r dull o wneud pethau yr un mor bwysig â'r hyn sy'n cael ei wneud. Mae'n cyferbynnu â rhaglenni grant lle mae'r prif ffocws ar drefnu i'r arian gael ei wario ar brosiectau. Mae'r rhaglen yr YCD yn gweithio gyda graen gweithgareddau cymunedol. Mae'n cynnwys pobl leol yn y dasg o nodi anghenion a blaenoriaethau lleol, mae'n darparu 'cronfa' leol o arian ac yn cynnwys trigolion lleol a chyfranogwyr sefydliadau lleol wrth ddyfarnu grantiau. Mae'n gwneud hyn mewn ffyrdd sy'n adeiladu galluoedd sefydliadau lleol ac yn cryfhau cysylltiadau mewn cymunedau lleol o fewn y cymdogaethau YCD.

11 Mae'r trefniadau cyflwyno'n amrywio ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Maent i gyd yn ymwneud ag Asiant lleol ar gyfer pob cymdogaeth YCD ac yn ariannu prosiectau lleol drwy arian lleol sydd wedi'i neilltuo. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r ymagwedd gyffredinol wedi'i haddasu i sicrhau bod arian YCD yn ymdrin ag anghenion lleol ac yn cydweddu ag ymyraethau lleol eraill.

12 Mae angen arweiniad ar raglen gymhleth fel YCD, y mae'n rhaid iddi fod yn atebol yn lleol ac yn genedlaethol, o ran ei hymagwedd at y broses gyflwyno. Darperir hyn gan y RhSC. Mae'r arweiniad yn mynnu bod Asiantau lleol yn mabwysiadu proses sydd â phedair elfen allweddol (gweler ffigur 1). Ni ellir hepgor unrhyw ran o'r broses. Maent ynghlwm wrth ei gilydd ac yn ôl ein tystiolaeth, po fwyaf yw cydlyniant y broses, gwell yw'r canlyniadau tebygol.



Ffigur 1: Elfennau allweddol yn y broses Cyfran Deg

13 Y Panel lleol Mae ymagwedd YCD yn cynnwys Paneli lleol wrth ddyfarnu grantiau. Mae'r Asiant lleol yn penodi aelodau'r Panel, gyda'r nod o gynrychioli amrywiaeth dda o fuddiannau lleol. Maent yn helpu i nodi anghenion, pennu blaenoriaethau ariannu, gweithio gydag Asiantau ar y math o brosiectau sydd i'w hariannu, nodi grwpiau i weithio gyda nhw a denu ceisiadau. Maent yn gwneud argymhellion ynghylch yr holl geisiadau i'r rhaglen yn eu cymdogaeth. I fod yn fanwl gywir, mae aelodau'r Panel yn rhoi cyngor yn hytrach na gwneud penderfyniadau ar geisiadau. Serch hynny, mae Asiantau wedi dod o hyd i ffyrdd o weithio sy'n cynnwys aelodau'r Panel yn llawn mewn proses gwneud penderfyniadau cydweithredol a chydsyniol, felly mae'r cyfrifoldeb yn cael ei rannu.

14 Mae aelodau'r Panel yn ystyried bod dyfarnu grantiau'n rôl ddifrifol iawn. Maent yn gweithio i sicrhau bod prosiectau'n diwallu anghenion lleol ac yn cyflwyno gwerth am arian. Maent yn gweithio'n ofalus i sicrhau cywirdeb a thryloywder, ac yn teimlo'n atebol i'w cymunedau lleol. Cymerir camau i sicrhau nad yw ceisiadau'n cael eu trin yn ffafriol os oes gan aelodau'r Panel fudd ynddynt.

15 Mae'r gwerthusiad yn dangos bod Paneli'n cymryd eu cyfreithlonrwydd o'u hymrwymiad i'r broses hon. Mewn cyferbyniad â hynny, ymddengys fod y berthynas rhwng y Panel a'r gymuned leol yn llai datblygedig. Mewn rhai cymdogaethau, gellir gwella cryfderau gweithio fel Panel ymhellach drwy well cyfranogiad yn y gymuned. Gellir creu manteision, er enghraifft, tryloywder, lledaenu gwybodaeth am gynnydd a llwyddiannau Cyfran Deg yn fwy effeithiol, a chyfranogiad pellach mewn gweithgareddau Cyfran Deg.

16 Mae heriau sylweddol i beri i broses y Panel weithio'n dda. Mae cyflawni a chynnal cyfansoddiad i Banel sy'n cyfateb i'r hyn a argymhellir i Asiantau gan RhSC yn profi'n

anodd, yn enwedig o ran cynnwys pobl ifanc a thrigolion nad ydynt eisoes yn ymwneud â sefydliadau lleol eraill, megis cymdeithasau tenantiaid a thrigolion. Ymysg y siomau eraill mae tensiynau rhwng aelodau Paneli, anawsterau wrth gynnal ymrwymiad aelodau a phwyslais annigonol ar gyfathrebu â'r gymuned ehangach a'i chynnwys. Serch hynny, mae mwy na dau draean o Asiantau gyda phrofiad cymharol yn ystyried bod YCD yn well na rhaglenni eraill sy'n defnyddio Panel.

17 Yn gyffredinol mae'r gwerthusiad yn dod i'r casgliad bod defnyddio Panel lleol yn un o lwyddiannau allweddol yr YCD.

18 Anghenion lleol a blaenoriaethau lleol Yn rhaglen yr YCD, mae dyfarnu grantiau'n gysylltiedig â dealltwriaeth o anghenion lleol, darparu gwasanaethau lleol a gallu sefydliadau lleol i ddysgu a chyflwyno gwasanaethau newydd yn y gymdogaeth. Roedd angen 'Dogfen Asesu Cymdogaeth' (DAC) ar broses YCD ar ddechrau'r rhaglen, ac mae ffurfiau amrywiol ar asesiadau o anghenion yn cyfrannu at bennu blaenoriaethau ac ategu ceisiadau grant sy'n cyfateb i'r blaenoriaethau hynny.

19 Mae 'Dogfen Blaenoriaethau Cymdogaeth' (DBC) yn gweithredu fel fframwaith strategol ar gyfer dyfarnu grantiau. Fel yr asesiad o anghenion, paratowyd yr un cyntaf ar ddechrau'r rhaglen, gyda bywyd o dair blynedd. Roedd yn brofiad heriol i benderfynu ar flaenoriaethau a fyddai'n para am dair blynedd ar ddechrau proses a oedd hefyd yn ymwneud â dod â Phanel anghydweddol ynghyd, dod o hyd i ddulliau gweithio ar y cyd effeithiol a symud ymlaen i wneud argymhellion ariannu.

20 I fod yn strategol, mae angen diben eglur er mwyn i gamau gweithredu gael eu cyfeirio at nodau priodol. Weithiau, bu geirio DBC yn fras yn golygu bod bron unrhyw beth yn cael ei ariannu a bod gwerth strategol y ddogfen felly'n gyfyngedig. Mae hyn yn arbennig o wir pan mai gwneud grantiau'n agored yw'r brif ymagwedd at ariannu prosiectau.

21 Mae adolygiad o flaenoriaethau ar ôl tair blynedd a chwe blynedd wedi'i ymgorffori ym mhrosesau YCD. Ymddengys fod y mwyafrif o Asiantau wedi cymryd y dasg yn llythrennol, gydag adolygiad syml, ac weithiau cryno, o'r blaenoriaethau a bennwyd ar ddechrau'r rhaglenni. Mae eraill wedi'i ddefnyddio fel cyfle i gyflawni adolygiad trwyadl o'u cyfeiriad cyffredinol, archwilio eu blaenoriaethau, ystyried grantiau i'w dyfarnu yn y dyfodol, cysylltu â'r gymuned ehangach ac adeiladu gallu. Dyma ymagwedd sy'n cydweddu ag ysbryd y rhaglen.

22 Mae angen o leiaf un adolygiad hanner tymor ar raglen deng mlynedd. Gyda bron pum mlynedd i fynd, mae pob rheswm erbyn hyn i archwilio pob agwedd ar y rhaglen ar lefel leol. Mae digon o amser ar ôl i ailgyfeirio ac ailffocysu gweithgareddau os dengys yr adolygiad y gellir cyflawni mwy drwy addasu'r ffordd o weithio a'r canlyniadau arfaethedig.

23 Caffael prosiectau I raddau amrywiol mae Asiantau wedi dyfeisio ymagweddau at gaffael prosiectau sy'n sicrhau cyfatebiaeth dda rhwng blaenoriaethau a phrosiectau a ariannwyd. Anghenion lleol yw'r penderfynydd allweddol. Ar yr un pryd, gall yr ymagwedd ganolbwyntio ar ddefnyddio sefydliadau lleol i gyflwyno prosiectau, gan adeiladu gallu lleol ychwanegol. Mae'r cyfleoedd am greu cysylltiadau'n sylweddol ac, ar eu gorau, mae'r rhain yn cael eu defnyddio mewn ffordd gref a chreadigol.

24 Mae comisiynu wedi profi'n ymagwedd effeithiol at gaffael prosiectau. Mae'n rhagweithiol a, phan fydd yn fwyaf datblygedig, gall symbylu'r broses Cyfran Deg. Mae'n ymwneud â'r canlynol:

- Ystyried anghenion yn briodol.
- Nodi bylchau mewn gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau i ddiwallu'r anghenion hynny.
- Blaenoriaethu anghenion/bylchau sy'n galluogi'r Panel i benderfynu ar yr hyn maent eisiau ei ariannu.
- Nodi sefydliadau cyflwyno posib, yn ddelfrydol rhai sydd o'r gymdogaeth neu gyfagos, a fydd yn cyfrannu at yr ardal yn y tymor hwy.
- Proses o ddatblygu gallu'r darparwyr hynny er mwyn iddynt gyflwyno cynigion prosiect i lenwi'r bylchau.
- Cyfranogiad llawn y Panel lleol ym mhob cam o'r broses.

25 Trwy hyn, mae dyfarnu grantiau'n rhan o'r ymagwedd strategol y mae'r RhSC yn chwilio amdani, ac yn cyfrannu at adeiladu gallu.

26 Yn Lloegr a'r Alban, mae dyfarnu grantiau'n agored yn fwy cyffredinol na'r hyn a ddisgwyliwyd. Mae rhai cymdogaethau'n defnyddio grantiau tactegol unigol ond mewn lleoliadau eraill mae'r ymagwedd grantiau agored wedi cael ei haddasu, yn enwedig drwy ddefnyddio cyd-drafodaeth i sicrhau cyfatebiaeth rhwng prosiectau arfaethedig ar yr un llaw ac anghenion a blaenoriaethau cymdogaeth ar y llaw arall. Mae hyn yn creu cysylltiadau pwysig yn ôl i'r Ddogfen Blaenoriaethau Cymdogaeth (DBC).Po fwyaf yw penodolrwydd a chyfiawnadwyedd y DBC, gorau fydd unrhyw grantiau agored gan fod rhywbeth penodol y gellir eu barnu yn ei erbyn.

27 Yn ôl y canlyniadau, os ydynt yn cael eu rheoli gyda phroses dryloyw a phendant, gellir cymharu ymagweddau'r YCD at gaffael â dulliau mwy ffurfiol o ran eu hatebolrwydd, ac eto maent fel arfer yn gyflymach a bob amser yn fwy hwylus eu defnyddio. Mae hwn yn bwynt hollbwysig mewn cymunedau difreintiedig lle mae adeiladu gallu a hyder yn hanfodol.

Ffactorau eraill yn llwyddiant broses yr YCD

28 Mae'r ymagwedd at gyflwyno a ddyfeisiwyd gan y RhSC wedi'i hategu gan nifer o ffactorau eraill sy'n cyfrannu at lwyddiant y broses YCD, sef:

- 'cronfa' leol o arian Mae Cyfran Deg wedi dangos effeithiau egnïol cronfa leol o arian. Mae grwpiau ymgeiswyr lleol yn teimlo bod Cyfran Deg yn gyfle gwirioneddol a'u bod yn gallu hygyrchu ariannu drwyddi. Gall y profiad YCD a rennir greu cysylltiadau rhwng grwpiau a'u helpu i nodi ffyrdd o gefnogi'i gilydd neu gydweithio yn y dyfodol.
- adeiladu gallu Mae adeiladu gallu'n nod rhaglen yr YCD ac yn rhan o broses yr YCD yn y mwyafrif helaeth o gymdogaethau. Mae ei bwysigrwydd yn amrywio. Weithiau, mae'n weithgaredd cymharol gul a phenodol sy'n fodd o gyflawni nod (ceisiadau grant a chyflwyno prosiect da). I'r eithaf arall, mae nifer bach o gymdogaethau lle mae dyna yw unig ffocws, neu ffocws sylweddol y rhaglen, gyda gallu cynyddol fel nod ynddo'i hun. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar sefydliadau cymunedol ond yn cynnwys unigolion o fewn y gymuned leol (e.e. drwy'r Panel, drwy gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i Gyfran Deg a thrwy ddigwyddiadau a gweithgareddau Cyfran Deg eraill.

- amserlen estynedig Mae adeiladu gallu a thynnu grwpiau newydd i mewn yn cymryd amser, ac mae'r YCD yn darparu amserlen estynedig yn y rhan fwyaf o'r cymdogaethau. Os mai rhaglen tair neu bum mlynedd oedd hon, ni fyddai ddigon o amser i'r broses aeddfedu, gydag Asiantau lleol yn symud i'r cam cwblhau cyn i ganlyniadau fedru datblygu'n llawn a dod i'r amlwg. Gwers gynnar bwysig sy'n gysylltiedig â graddfeydd amser yw bod rhaglen gymhleth megis yr YCD yn cymryd cryn dipyn o amser ar y dechrau i roi'r trefniadau rheoli ac arwain angenrheidiol ar waith.
- ffocws lleol Mae rhaglen yr YCD yn ymagwedd strategol at ariannu ar lefel leol iawn. Mae'r model cyflwyno'n gallu bod yn ymatebol yn lleol. Wrth gael eu cyfuno, mae'r model cyflwyno lleol a'r gronfa leol o arian yn cefnogi llawer o'r canlyniadau cadarnhaol. Mae hwn yn rhoi ansawdd eithriadol i'r rhaglen, gan ei galluogi i weithio *gyda a thros* y gymdogaeth yn hytrach na gwneud pethau'n gyflym *i'r* gymdogaeth a'i thrigolion. Mae'r buddiannau amlwg yn cynnwys cynnydd mewn hyder, perchnogaeth leol ar brosiectau dilynol, ffurfio rhwydweithiau newydd a gallu cynyddol mewn sefydliadau lleol ac unigolion. Ni fyddai hyn wedi digwydd o gwbl heb fuddsoddiad yn y broses leol.
- gweledigaeth strategol ddiffiniedig Ymddengys fod llwyddiant yr ymagwedd yn fwy pan fydd gweledigaeth strategol ddiffiniedig. Mae gan yr astudiaethau achos sy'n cyflawni'r mwyaf syniad clir o ran yr hyn y maent am ei gyflawni, a phenderfynodd rhai symud ymlaen yn araf nes eu bod yn gallu datblygu gweledigaeth strategol. Gan hynny, maent wedi osgoi gwneud penderfyniadau a gwario er mwyn gwario.
- hyblygrwydd Mae'r arweiniad gan y RhSC i Asiantau'n cyfuno fframwaith cyson i Asiantau lleol gyda hyblygrwydd sy'n eu galluogi i ddyfeisio ymatebion lleol i amgylchiadau lleol. Mae'r hyblygrwydd hwn yn ffactor llwyddiant hollbwysig ym mhroses yr YCD. Mae'n rhoi cyfle i'r Asiant a'r Panel ofyn cwestiwn pwysig, sef "beth fydd yn gweithio yma?" Wrth weithio o fewn yr un model bras, gall cymdogaethau ymateb i'w cyfleoedd eu hunain a chreu newidiadau.
- anffurfioldeb ac ymatebolrwydd y broses Mae ansawdd ac arddull y broses yn galluogi cyfranogiad yn y broses ac yn golygu ei bod yn ddealladwy i gyfranogwyr ar lefel y gymdogaeth leol. Lle mae rhaglenni eraill yn peri siom o ran eu hetifeddiaeth, rydym yn disgwyl y bydd yr YCD yn cael effaith sylweddol a pharhaus mewn cymunedau lleol gan eu bod yn gallu gweithio'n wirioneddol gyda'r rhaglen, yn addasu ac yn ymateb iddi.

Prosiectau a ariannwyd drwy'r YCD

29 Ar draws rhaglen yr YCD, mae 10% o ddyfarniadau hyd yn hyn wedi'u rhoi i grwpiau newydd neu grwpiau nas cyfansoddwyd yn flaenorol, 30% i grwpiau nad ydynt wedi derbyn ariannu sylweddol yn flaenorol, 36% i grwpiau sydd wedi derbyn ariannu sylweddol yn flaenorol, a 17% i gategorïau eraill (darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn bennaf). Mae rhai ardaloedd yn ei chael hi'n anodd denu digon o geisiadau o safon briodol. Gallai hyn newid dros amser wrth i fanteision gwaith adeiladu gallu dod i'r amlwg.

30 Ar sail ein hastudiaethau achos, mae rhaglen yr YCD hyd yn hyn wedi'i dominyddu o ran rhifau gan ddyfarniadau llai, gyda bron 40% ohonynt am symiau sy'n llai na £40,000. Mae defnydd diddorol yn cael ei wneud o ddyfarniadau sy'n llai na £10,000 i helpu i gyflwyno ymagweddau strategol at Gyfran Deg, gyda ffocws penodol ar weithgareddau sy'n galluogi grwpiau embryonig, naill ai drwy fynediad i hyfforddiant (adeiladu gallu) neu drwy eu galluogi i roi cynnig ar syniadau am ddarparu gwasanaeth yn y dyfodol. Mewn cyferbyniad â hyn, mae ychydig iawn o ddyfarniadau dros £100,000, ond maent yn ffurfio bron hanner yr ariannu a ddyrannwyd. Mae perygl y gallai'r prosiectau hyn gyflawni'u

nodau eu hunain ond gwyrdroi cyflawniad cyffredinol blaenoriaeth cymdogaeth a'i chyfraniad at nodau'r rhaglen oni bai eu bod yn cael eu targedu'n dda iawn.

31 Mae ychydig dros chwarter y prosiectau'n ymwneud ag adeiladu gallu, mae bron 10% ohonynt yn ymwneud â gwariant cyfalaf, ac mae'r gweddill yn ymwneud â chyflwyno gwasanaethau a gweithgareddau i amrywiaeth eang o fuddiolwyr. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau iechyd; prosiectau sgiliau, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, clybiau cinio a gweithgareddau yn ystod y dydd; drama, cerddoriaeth a ffilmiau, undebau credyd a chwnsela ar ddyledion; a llawer mwy.

Cyflawni amcanion y Gronfa Loteri Fawr

32 Trosolwg Mae angen ystyried dau fater wrth adolygu llwyddiant y rhaglen o ran cyflawni amcanion y Gronfa Loteri Fawr. Yn gyntaf, o ystyried maint y gronfa leol o arian a graddfa fawr iawn y problemau y mae'r cymdogaethau YCD yn eu hwynebu, mae amcanion y rhaglen yn hynod uchelgeisiol gan eu bod yn ystyried materion megis cynaladwyedd ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol (gweler paragraff 7). Fodd bynnag, er bod ariannu'r YCD yn eithaf bach mewn perthynas â'r problemau, mae eisoes yn glir y gall ei effaith fod yn drawsnewidiol. Yn ail, mae unrhyw ariannwr megis y Gronfa Loteri Fawr yn disgwyl i'w raglenni gwrdd â'i amcanion. Fodd bynnag, nid yw amcanion yr YCD wedi'u geirio'n glir. Argymhellir yn gryf bod rhaglenni'r dyfodol yn rhoi mwy o sylw i'r mater hwn er mwyn deall amcanion y rhaglen yn llawnach, sef rhagofyniad ar gyfer eu cyflawni.

33 Ennill ariannu Mae'r holl gymdogaethau YCD yn derbyn arian y Loteri drwy eu dyfarniadau YCD. Mae tystiolaeth hefyd o arian cyfatebol ar gyfer dyfarniadau YCD, sy'n gymaint â hanner yn fwy eto, ynghyd â chymorth pellach mewn da a chefnogaeth gan wirfoddolwyr. Mae nifer bach o Asiantau'n gweld bod arianwyr newydd yn cael eu denu i gymdogaethau YCD o ganlyniad i'w harsylwadau ynghylch Cyfran Deg neu eu profiadau ohoni. Mewn nifer bach iawn o leoliadau, mae pryderon ynghylch eu gallu i wario'r holl arian YCD erbyn diwedd y rhaglen.

34 Mae sefydliadau sydd wedi cael cefnogaeth ac arweiniad o ran gwneud ceisiadau grant yn adrodd am fuddiannau sylweddol. Mae rhai eisoes yn dangos eu llwyddiannau, tra bod rhai eraill yn hapus y byddant yn elwa o'u galluoedd cynyddol yn y dyfodol. Yr hyn y gallwn ei weld erbyn hyn yw bod grwpiau'n ystyried bod ansawdd profiad ariannu YCD yn sylweddol well na llawer o gyfundrefnau ariannu eraill y maent wedi'u hystyried yn y gorffennol, ac maent yn ystyried bod eu llwyddiant gyda'r YCD yn ffactor galluogi cryf wrth iddynt wneud ceisiadau yn y dyfodol.

35 Dyma gyfnod o ariannu sy'n lleihau ar gyfer y SGCh. Mae llai o sicrwydd ynghylch llwyddiant parhaus o dan yr amgylchiadau presennol. Fodd bynnag, mae ein hastudiaethau achos yn dangos bod grwpiau cymunedol yn teimlo eu bod mewn gwell sefyllfa i gael arian yn y dyfodol gan amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y bydd cyflawniadau rhaglen yr YCD yn werthfawr mewn cyfnod o brinder ariannu, yn ogystal â mewn cyfnod o ddigonedd. Ni fydd y gallu am dwf a datblygiad yn cael ei golli'n gyfan gwbl, a bydd rhaglen yr YCD wedi galluogi mwy o grwpiau i barhau a ffynnu hyd yn oed o dan yr amgylchiadau anoddaf, a goroesi nes y bydd mwy o arian ar gael eto.

36 Er nad yw ariannu parhad eto'n broblem ar gyfer llawer o'r prosiectau, mae rhai eisoes yn dod o hyd i ffynonellau ariannu eraill. Fodd bynnag, mae'r hinsawdd ariannu gyfredol yn golygu y gall fod llawer yn profi anawsterau. Rhagwelwn y bydd hyn yn arbennig o wir pan fydd grantiau agored wedi cael eu defnyddio heb adeiladu gallu sylweddol.

37 Adeiladu gallu Yn yr adroddiad hwn, mae adeiladu gallu'n golygu gweithgareddau a chefnogaeth sy'n cryfhau sgiliau a galluoedd pobl, grwpiau a sefydliadau i weithredu'n effeithiol. Yn rhaglen yr YCD, canolbwyntir yn bennaf ar allu i geisio ariannu am brosiectau, dod o hyd iddo a'i reoli.

38 Ymysg grwpiau cymunedol, mae gallu newydd yn dod i'r amlwg. Mae hyn yn gysylltiedig â materion ymarferol megis llywodraethu ac yswiriant, gallu personol megis sgiliau a morâl, a materion megis cyfathrebu a rhwydweithiau. Mae cyfranogwyr yn y prosiect yn adrodd am fynediad i hyfforddiant a chymwysterau. Mae'r buddiannau corfforaethol ar gyfer grwpiau'n cynnwys gallu cynyddol o ran gweinyddu, cydymffurfio â deddfwriaeth, blaengynllunio a dyheadau o ran gweithgareddau'r dyfodol. Mae buddiannau o'r fath yn cronni'n gryfaf ar gyfer grwpiau newydd neu lai profiadol. Ar hyn o bryd mae'r grwpiau hyn ond yn ganran fach o geisiadau prosiectau llwyddiannus, ond bydd y canlyniadau hyn yn cryfhau os dyrennir mwy o arian i grwpiau o'r fath yn ystod gweddill y rhaglen.

39 Mae'r sector gwirfoddol a chymunedol ehangach hefyd yn elwa o Gyfran Deg. Yn wahanol i'r sefyllfa mewn llawer o raglenni lle mae prosiectau a ariennir yn bell oddi wrth ei gilydd, mae llawer o brosiectau Cyfran Deg yn agos iawn i'w gilydd. Mae bod yn rhan o ymagwedd sy'n creu ymdeimlad lleol o ddiben a rennir yn galluogi ac yn grymuso. Mae gwell dealltwriaeth rhwng sefydliadau sy'n gweithio yn y gymdogaeth, gyda chysylltiadau a rhwydweithiau newydd yn cael eu ffurfio. Mewn rhai cymdogaethau, mae gallu'n cael ei adeiladu'n uniongyrchol yn y sector, gan gryfhau sefydliadau isadeiledd a fydd yn parhau y tu hwnt i Gyfran Deg ac yn gweithredu y tu hwnt i ffiniau'r cymdogaethau Cyfran Deg.

40 Mae newidiadau gwirioneddol i'w gweld. Mae grwpiau'n llawn brwdfrydedd dros y tasgau maent wedi ymgymryd â nhw, ac maent yn fwy hyderus o ran eu galluoedd. Mae ganddynt ymdeimlad cynyddol o'u gwerth eu hunain. Mae ganddynt ddyheadau i gydweithio ag eraill i adeiladu ar gyflawniadau Cyfran Deg, ac mae sawl un eisoes yn gwneud hynny. Trwy Gyfran Deg, mae pobl leol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n creu cysylltiadau rhyngddynt a phobl eraill.

41 Diwallu anghenion pobl ddifreintiedig Mae'r rhaglen yn llwyddiannus o ran cynnwys pobl ddifreintiedig a diwallu eu hanghenion. Mae'r holl brosiectau'n fuddiol ar gyfer pobl sy'n ddifreintiedig mewn rhyw ffordd ac mae llawer hefyd yn targedu grŵp ag angen penodol, gyda ffocws penodol ar bobl ifanc a lleiafrifoedd ethnig. Mae llai o dystiolaeth bod pobl ddifreintiedig yn ymwneud â chychwyn a rhedeg prosiectau, ond mae tystiolaeth glir o dwf mewn cydlyniant cymdeithasol o ganlyniadau i brosesau a phrosiectau Cyfran Deg sy'n dod â phobl a grwpiau ynghyd.

42 Cyfalaf cymdeithasol ac ansawdd bywyd Tra bod adeiladu cyfalaf cymdeithasol yn un o amcanion y Gronfa Loteri Fawr, nid yw'n ganolbwynt penodol yn aml i'r grwpiau sy'n rhedeg prosiectau a ariennir drwy Gyfran Deg. Ar ben hynny, mae twf mewn cyfalaf cymdeithasol a gwelliannau mewn ansawdd bywyd yn newidiadau hir dymor sy'n cymryd amser i ddod i'r amlwg, felly mae'n arbennig o arwyddocaol i nodi y gellir gweld tystiolaeth o ganlyniadau yn y meysydd hyn eisoes. Yr hyn sy'n hollbwysig yw'r arwyddion calonogol bod pobl yn teimlo bod eu cymdogaeth yn gwella. Un o'r canlyniadau a ddyfynnir yn amlaf yw'r ymdeimlad bod ymddygiad gwrthgymdeithasol ymysg pobl ifanc yn lleihau.

43 O ganlyniad i Gyfran Deg, mae pobl yn dod i nabod ei gilydd yn well, ac mae sawl enghraifft o dwf mewn cyfalaf cymdeithasol o ran creu agosrwydd, lle mae pobl yn

dwysau'r cysylltiadau cadarnhaol rhyngddynt. Mae peth tystiolaeth hefyd o bobl yn dod ynghyd ar draws bylchau diwylliannol, cymdeithasol ac oedran, a chreu'r cyfalaf 'pontio' llawer mwy anodd. Ar lefel prosiectau'n sicr, mae optimistiaeth gynyddol ac ymdeimlad "y gallwn wneud gwahaniaeth gyda'n gilydd".

44 Gyda phedair blynedd ar ôl, gellir disgwyl y bydd y canlyniadau hyn yn cryfhau ac yn ymestyn cyn bod y rhaglen wedi'i chwblhau.

45 Yng nghyd-destun Cyfran Deg, mae tensiwn diddorol rhwng adeiladu cyfalaf cymdeithasol ac adeiladu gallu. Lle mae nifer mawr o brosiectau mewn cymdogaeth yn canolbwyntio ar adeiladu gallu a nifer bach yn unig ar ariannu er mwyn i grwpiau/sefydliadau cymunedol gyflawni eu prosiectau eu hunain sydd â'r nod o ddiwallu anghenion lleol, gallai fod llai o gyfleoedd i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol. Mae'r ddamcaniaeth yn awgrymu y bydd buddiannau nes ymlaen yn y tymor hwy sy'n llifo o ganolbwyntio ar adeiladu gallu, a gallai datblygu cyfalaf cymdeithasol fod yn un buddiant o'r fath, ond mae'n rhy fuan i dystiolaeth o hyn ddod i'r amlwg.

46 Cyfranogiad y gymuned Roedd y Gronfa Loteri Fawr eisiau i raglen yr YCD gynnwys cyfranogiad y gymuned wrth wneud penderfyniadau, er nad oedd ei disgwyliadau yn hyn o beth yn dryloyw. Mae'r gwerthusiad wedi archwilio i ba raddau y mae pobl leol yn rhan o wneud penderfyniadau wrth gyflwyno rhaglen yr YCD ac i ba raddau yr ymgynghorir â nhw ynghylch anghenion a blaenoriaethau lleol.

47 Ym mhobman mae pobl leol yn cymryd rhan yng ngwaith y Panel, gyda hyd at bedwar o drigolion lleol ar y Panel fel aelodau. Yn ogystal, mae mwy na thri chwarter o gymdogaethau YCD yn gweithio ar gyfranogiad cymunedol ehangach. Gwneir hyn yn bennaf drwy ddarparu gwybodaeth a pheth ymgynghori. Yn anaml iawn y gwelir cyfranogiad y gymuned drwy gydol y broses, ac mae cydweithio wedi'i gyfyngu i waith uniongyrchol gyda'r Panel. Mae'r gwerthuswyr yn gweld hyn fel cyfle wedi'i golli.

48 Mewn llawer o'r cymdogaethau YCD, mae amser o hyd i roi mwy o bwyslais ar gynnwys y gymuned leol. Byddai hyn yn cryfhau'r rhaglen ymhellach o ran adeiladu cyfalaf cymdeithasol, atebolrwydd (a chyfreithlonrwydd y Panel), a chynaladwyedd yn y tymor hwy.

49 Cynaladwyedd Mae arweiniad y RhSC i'r Asiantau lleol yn darparu eglurder defnyddiol ynghylch cynaladwyedd drwy eu hatgoffa *'nad yw effaith sy'n para'n awgrymu mai'r prosiectau sy'n parhau am byth yw'r rhai mwyaf gwerthfawr. Canlyniadau'r rhaglen – adeiladu gallu, cyfalaf cymdeithasol ac ansawdd bywyd – yw'r hyn y mae'r rhaglen yn ceisio'i gynnal.'* Fel a amlinellwyd uchod, mae'r canlyniadau hyn eisoes yn dod i'r amlwg, a rhagwelir mwy o fuddiannau o'r fath cyn i'r rhaglen ddod i ben.

50 Daw cyfraniadau at gynaladwyedd o nifer o gyfeiriadau, gan gynnwys:
- Gwaith adeiladu gallu i gefnogi sefydliadau cymunedol a'r sector gwirfoddol o ran materion sy'n ymwneud â'u cynaladwyedd eu hunain. Mae'r sgiliau a'r galluoedd o ganlyniad i hynny'n cyfrannu at ganlyniadau parhaus yn y gymdogaeth YCD, a gellir eu trosglwyddo pan fydd buddiolwyr yn symud i ardaloedd eraill. Heb adeiladu gallu, mae cynaladwyedd yn llai tebygol o fod yn ganlyniad y rhaglen, a chydnabyddir hyn yn yr ymagweddau a ddefnyddir. Mae cyfleoedd iddo gael ei wella ymhellach yn ystod gweddill y rhaglen.

- Buddsoddi mewn sefydliadau lleol allweddol i barhau â'r gwaith adeiladu gallu ar ôl i Gyfran Deg ddod i ben.
- Y pwyslais ar 'ariannu strategol' a bennwyd gan y RhSC. Anogir Asiantau a Phaneli i ystyried effeithiau hir dymor y prosiectau maent yn eu hariannu. Mae'r effeithiau hyn yn berthnasol ar lefel prosiectau unigol, ac yn berthnasol iddynt gyda'i gilydd, Mae ymagwedd strategol at ariannu sy'n gysylltiedig ag anghenion a dyheadau lleol yn fwy tebygol o greu buddiannau parhaus na dyfarniadau unigol.
- Derbynyddion dyfarniadau. Pan fydd Cyfran Deg yn gwneud dyfarniadau i grwpiau lleol – ac yn enwedig i rai llai profiadol – mae'n adeiladu eu gallu ac yn creu cysylltiadau rhyngddynt. Mae hyn, yn ei dro, yn cryfhau'r sector gwirfoddol a chymunedol lleol ac yn helpu i adeiladu cyfalaf cymdeithasol. Mae dyfarniadau i grwpiau profiadol, ac yn enwedig i asiantaethau statudol a chyflwynwyr gwasanaethau cymdeithasol, yn annhebygol o gael yr un lefel o effaith.
- Twf mewn optimistiaeth. Mae Cyfran Deg yn arwain at well morâl a gobeithion ar gyfer gwell dyfodol. Mae ymdeimlad clir y "gallwn wneud gwahaniaeth". Mae'n tarddu o'r cyfranogiad a'r cyflawniad sy'n cael eu sicrhau drwy broses yr YCD. Bydd hyn yn darparu sylfaen gadarn i gynaladwyedd.
- Proses yr YCD. Mae'r broses yn lleol. Pan fydd yn gweithio ar ei gorau, mae'r Panel a (rhannau o'r) gymuned ehangach yn berchen arno. Mae'n galluogi grwpiau lleol i gyflwyno prosiectau sy'n diwallu eu hanghenion eu hunain neu anghenion eu buddiolwyr targed ac mae'n cynnwys y gymuned leol, gan estyn buddiannau drwy gyfalaf cymdeithasol sy'n ehangu. Mae'r gwerthusiad wedi nodi y byddai cyfraniadau at ganlyniadau cynaliadwy o'r broses yn cael eu gwella drwy estyn y gwaith gyda'r gymuned leol.

51 Yn yr Alban, mae gwaith ar strategaethau gadael yn mynd i'r afael yn glir â materion cynaladwyedd ac etifeddiaeth, a sicrhau bod camau terfynol ariannu drwy raglen yr YCD yn cael eu targedu'n ofalus i adeiladu cyflawniadau hir dymor a chynaliadwy. Ar ben hynny, mae'r RhSC wedi comisiynu arweiniad i Asiantau ar gynaladwyedd, sydd bron wedi'i gwblhau.

Etifeddiaeth sy'n parhau

52 Mewn rhaglen sy'n gweithredu ar y lefel leol, mae'n anochel y bydd rhai cymdogaethau'n fwy llwyddiannus na rhai eraill. Hefyd, nid yw'r newidiadau a'r datblygiadau sy'n mynd llaw yn llaw â Chyfran Deg yn tyfu'n unffurf. Gall fod troeon yn ôl a hybiau sydyn o newid cadarnhaol. Mae hyn i gyd yn gyffredin mewn rhaglen gymunedol. Felly, er y bydd lefelau cyflawniad yn newid, mae'r adroddiad gwerthuso'n canolbwyntio'n bennaf ar y gorau sy'n cael ei gyflawni. Mae hyn oherwydd y gellir dysgu sut gymaint ganddo. Nodwyd nifer o feysydd sy'n tanberfformio, y gellir gwella rhai ohonynt, ond mae rhai'n tarddu o heriau sy'n rhan annatod o waith ar lawr y gymuned. Er gwaetha'r anawsterau hyn, mae'n amlwg bod y model YCD yn addas i'r diben ac yn cyflwyno ymagwedd ysbrydoliaethus at ddyfarnu grantiau.

53 Mae manteision amlwg eisoes yn amlwg o'r rhaglen ar gyfer pobl leol, y SGCh lleol ac ansawdd bywyd lleol. Ar y pwynt hwn yn y rhaglen, arwyddion yw'r rhain yn hytrach na chanlyniadau parhaus, a bydd yn bwysig parhau i werthuso'r rhaglen i nodi i ba raddau y caiff y rhain eu datblygu.

54 Er na fydd problemau dwfn a chymhleth ardaloedd difreintiedig yn cael eu datrys yn ystod rhaglen yr YCD, disgwylir y bydd ei phrosesau'n cyfrannu at sectorau cymunedol a gwirfoddol mwy cynaliadwy, a chymunedau mwy hydwyth.

55 Etifeddiaeth leol a buddiannau lleol Ceir yr arwyddion mwyaf amlwg o effeithiau tymor hwy ar lefel leol, ac maent yn cynnwys y canlynol:

- *Etifeddiaeth i unigolion lleol*. Bydd pobl leol wedi datblygu sgiliau, hyder ac uchelgais y byddant yn eu defnyddio yng ngweddill eu bywydau, boed yn y gwaith, mewn gweithgareddau gwirfoddol eraill neu yn eu bywydau domestig.
- *Etifeddiaeth i'r SGCh lleol*. Mae rhaglen yr YCD wedi darparu buddsoddiad i isadeiledd y SGCh ac i gefnogi grwpiau cymunedol a gwirfoddol newydd a chyfredol. Mae'r ddau linyn buddsoddi hwn wedi helpu i gryfhau'r SGCh lleol mewn ffyrdd a fydd yn goroesi, hyd yn ystod os diddymir yr ariannu.
- *Etifeddiaeth o ran ansawdd bywyd lleol.* Mae rhaglen yr YCD wedi cyflwyno cyfleusterau lleol (megis parciau, lleoedd chwarae, cyfleusterau celf) a fydd yn bodoli yn y tymor hwy. Gellir cwestiynu i ba raddau y bydd cyfyngiadau ar ariannu yn y dyfodol yn lleihau gwerth y cyfleusterau hyn os na chânt eu cynnal a'u cadw, eu hyrwyddo etc. Ond mae cyfleusterau newydd yn bodoli ac mae hynny'n etifeddiaeth bwysig mewn cymunedau lle mai rhaglen yr YCD yw'r cyfle cyntaf y maent wedi'i gael i weld eu hardaloedd yn gwella a bod yn rhan o beri i hynny ddigwydd.

56 Model ar gyfer cynnwys y cyhoedd wrth ddyfarnu grantiau? Mae Cyfran Deg yn seiliedig ar adeiladu consensws yn y corff dyfarnu grantiau ac yn cael ei hymgorffori wrth nodi anghenion lleol. Mae'n canolbwyntio ar ddiwallu'r anghenion hynny yn hytrach na blaenoriaethau ymgeisydd y prosiect.

57 Yn y cam hwn o raglen yr YCD, rydym wedi gweld gwerth proses leol. Mae'n fodel da ar gyfer ardaloedd difreintiedig gan ei fod yn galluogi symud tuag at weithredu lleol mewn ffyrdd sy'n grymuso pobl leol drwy sicrhau eu bod yn rhan o'r ateb i broblemau. Gall grwpiau cymunedol ddatblygu syniadau ac wedyn mynd ati i gael gafael ar yr arian. Mae cymhelliad ac ymrwymiad yn llawer cryfach o ganlyniad i hynny. Ar ben hynny, crëir canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y gymuned leol, gan gryfhau boddhad gyda chyflawniadau. Mae datblygu'r ymagwedd sensitif hon at ddyfarnu grantiau mewn cymdogaethau bach ynddo'i hun yn etifeddiaeth bwysig rhaglen yr YCD.

58 Byddai manteision o ganlyniad i ddefnyddio ymagwedd o'r fath yn berthnasol mewn amrywiaeth o leoliadau, nid mewn ardaloedd difreintiedig yn unig, er y byddai angen ei addasu, wrth gwrs, i amgylchiadau lleol. Mae canlyniadau'r gwerthusiad yn dod i'r amlwg ar adeg ddelfrydol gan fod gan brofiadau Cyfran Deg gyfraniad ehangach i'w wneud at roi mentrau diweddar y llywodraeth ar waith yn llwyddiannus ar lefel leol. Mae model yr YCD yn union y math o fformat arloesol ond wedi profi'i werth, seiliedig ar bartneriaeth ond gyda gwreiddiau lleol, ar gyfer rheoli arian lleol y mae ei angen ar fentrau grymuso fel mater o frys.

Gweithredu angenrheidiol yn rhaglen yr YCD

59 Mae ein canfyddiadau o'r gwerthusiad hwn yn awgrymu y gallai sawl Asiant lleol a Phanel lleol wella cyflawniadau'r YCD ymhellach drwy fuddsoddi adnoddau ac ymdrech mewn cyfathrebu'n ehangach gyda'r cymunedau lleol ehangach mewn cymdogaethau YCD a'r tu hwnt. Mae hyn yn rhannol er mwyn diwallu anghenion o ran atebolrwydd lleol yn well.

Mae'n ymwneud hefyd ag adfywio ac adnewyddu'r rhaglen drwy estyn allan i grwpiau a buddiannau newydd. Byddai hyn yn estyn llwyddiant y rhaglen o ran adeiladu gallu a galluogi twf yn yr hyder a'r profiadau sy'n sail i gyfalaf cymdeithasol.

60 Mae dros hanner cyfnod rhaglen yr YCD wedi mynd heibio. Safbwynt y gwerthusiad yw mai nawr fyddai amser da am adolygiad lleol mwy cynhwysfawr o le mae'r rhaglen wedi cyrraedd, sut mae'r Panel yn teimlo am gyflawniadau, ac ymgynghori/cyfathrebu â'r gymuned leol ehangach i arddangos cyflawniadau, hysbysebu'r ffordd ymlaen ar gyfer yr ail hanner, a chynhyrchu cefnogaeth ar gyfer y ffordd ymlaen honno (ynghyd ag addasiadau iddi).

61 Gallai Asiantau a Phaneli lleol ddefnyddio adolygiad hefyd i ystyried lledaeniad presennol y derbynyddion grantiau yn eu cymdogaeth, ac a oes modd creu mwy o fuddiannau o ran cynaladwyedd hir dymor drwy ddyfarnu grantiau i grwpiau newydd a dibrofiad, gydag adeiladu gallu cysylltiedig.

62 Nawr yw'r amser i weithio'n genedlaethol ac yn lleol a chreu strategaethau gadael clir. Gellir tynnu ar brofiad yr Alban, lle mae cynllunio wedi bod ar waith ers tro i baratoi ar gyfer dod â'r rhaglen i ben yno yn 2010, a bydd arweiniad y RhSC ar gynaladwyedd ar gael cyn hir. Mae angen i gynllunio strategaethau gadael ystyried yr hyn sy'n digwydd ar ôl i'r holl arian gael ei wario, rôl barhaus Paneli lleol (neu beidio), ac effaith Asiantau lleol na allant barhau i ddarparu'r lefel o gefnogaeth maent wedi bod yn ei darparu drwy raglen yr YCD.

63 Byddai'n ddefnyddiol iawn hefyd i gynyddu cydweithio rhwng prosiectau lleol, gan adeiladu ar yr adolygiad lleol y soniwyd amdano uchod. Byddai'r adolygiad hynny'n galluogi'r prosiectau i ddod o hyd i gyfleoedd gweithio ar y cyd a allai gynyddu gwerth eu gweithgareddau, ond byddai hefyd yn werthfawr i'r prosiectau nodi'r ddysg ehangach o'u profiad er mwyn bwydo gwell gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau yn y tymor hwy.

Gwersi ar gyfer rhaglenni ariannu yn y dyfodol

64 Mae'r gwerthusiad wedi datgelu nifer o wersi ar sail profiad rhaglen yr YCD. Ar lefel y rhaglen genedlaethol, mae angen i amcanion cyffredinol fod yn eglur ond hefyd ar lefel uchel iawn, er mwyn cael cwmpas llawn ar gyfer arloesedd lleol, hyblygrwydd a pherthnasedd i amgylchiadau lleol, o fewn set glir o nodau sy'n darparu cyfeiriad ac ysbrydoliaeth strategol.

65 Mae'n cymryd amser a chryn fuddsoddiad mewn adnoddau i adeiladu gallu a chyfranogiad cymunedol. Fodd bynnag, mae gan raglen ariannu sy'n cynnwys y nodweddion hynny fuddiannau ychwanegol enfawr o ran perthnasedd prosiectau lleol, yn ogystal ag adeiladu sgiliau a hyder lleol, cyfalaf cymdeithasol, cynaladwyedd a hydwythedd. Mae'r 'broses' cymryd rhan yr un mor bwysig â 'chynnyrch' prosiectau a ariennir.

66 Mae cronfa 'leol' o arian yn sicrhau bod grwpiau cymunedol lleol yn teimlo mai nhw sy'n 'berchen' ar yr arian a bod ganddynt gymaint o gyfle o gael arian ar gyfer eu prosiectau â sefydliad mwy sylweddol a phrofiadol. Gall hyn estyn 'cyrhaeddiad' y rhaglen i'r rhannau o'r gymuned a oedd wedi'u heithrio o raglenni confensiynol yn y gorffennol.

67 Mae prosesau caffael sy'n pwysleisio comisiynu o gwmpas dealltwriaeth o anghenion lleol a chyd-drafodaeth rhwng ymgeiswyr yn arwain at brosiectau lleol mwy priodol sy'n cyfateb i flaenoriaethau lleol ac yn diwallu anghenion lleol, a byddant hefyd yn brosiectau mwy cadarn gan eu bod wedi mynd drwy broseso herio ac adolygu. Gall y ffurfiau hyn ar 'gaffael' prosiectau yn hytrach na phrosesau ymgeisio confensiynol am grant fod yn fodelau da i'r dyfodol.

68 Mae angen i gyfranogiad cymunedol adeiladu ar ddiddordebau cyfredol pobl a'u parodrwydd i gymryd rhan. Mae'n bwysig i grwpiau sy'n gwneud penderfyniadau (e.e. Paneli'r YCD) ddenu cymysgedd da o ddiddordebau lleol, yn enwedig trigolion lleol sy'n deall eu hardaloedd lleol ac sydd â'r cymhelliad i'w gwella.

69 Mae angen i raglenni ariannu'r dyfodol sy'n cynnwys cyfranogiad cymunedol sicrhau cefnogaeth ac adnoddau digonol a phriodol. Roedd rhaglen yr YCD yn dioddef yn y dyddiau cynnar oherwydd iddi danamcangyfrif yr angen a'r galw am gefnogaeth (gan Asiantau lleol, gweithwyr datblygu cymunedol etc), ac erbyn hyn mae'n elwa o fuddsoddi'n drymach yn y gwasanaethau cefnogi hyn.

70 Gellir rhesymoli prosesau gwneud penderfyniadau ar geisiadau grant a chyflwyno ariannu i brosiectau, gan olygu eu bod yn gyflymach ac yn haws os buddsoddir digon o amser ac arian ar ddechrau'r broses er mwyn adeiladu'r cyfranogiad cymunedol priodol a dealltwriaeth o'r prosesau. Gall buddsoddi amser ac arian yn gynnar 'i fyny'r ffrwd' arwain at arbedion gwirioneddol nes ymlaen wrth reoli rhaglenni ariannu.

Camau nesaf ar gyfer gwerthuso

71 Dyma adroddiad terfynol y gwerthusiad hwn. Mae llawer o'r newidiadau rydym yn gobeithio eu gweld o ganlyniad i Gyfran Deg yn cymryd amser i ymddangos, ac o reidrwydd, canfyddiadau dros dro yw'r rhain yn yr adroddiad hwn. Gobeithir y bydd y Gronfa Loteri Fawr a RhSC yn parhau i werthuso'r fenter er mwyn i amrediad ehangach o ganlyniadau gael eu gweld a chasgliadau gael eu cyfiawnhau'n llawnach. Yn anad dim, mae angen ymchwilio i gwestiwn effeithiau sy'n 'parhau'.

72 Mewn unrhyw werthusiadau yn y dyfodol, bydd yn bwysig cysylltu gweithgareddau monitro, dysgu a gwerthuso'n agos er mwyn i'r gweithgareddau hyn atgyfnerthu ei gilydd ac ar yr un pryd, lleihau'r baich ar y rhai sy'n darparu data (yn enwedig Asiantau lleol). Byddai hefyd yn fuddiol cynyddu cyfleoedd i rannu a myfyrio ar brofiadau er mwyn i wybodaeth am yr ymagwedd hon barhau i gael ei deall yn well ac yn fwy cyffredinol.